Cyllid & Thollau EM

# Help a chymorth ynghylch mewnforio ac allforio

Rydym yn rhoi gwybodaeth ar draws amrywiaeth o sianeli i sicrhau bod gennych y cymorth sydd ei angen arnoch i gadw'ch busnes yn symud.

## Canllawiau ar gyfer mewnforio ac allforio rhwng Prydain Fawr a'r UE

Os oes gennych gyfryngwr tollau, mae camau y mae'n rhaid i chi eu cymryd o hyd. P'un a ydych yn llenwi datganiadau tollau eich hun neu fod gennych gyfryngwr i'w wneud ar eich rhan, bydd y canllawiau mewnforio ac allforio hyn yn eich tywys drwy'r broses gyfan, gan roi gwybod i chi am y camau i'w cymryd a nodi'ch opsiynau.

Ewch ati i ddysgu rhagor yn **www.gov.uk/government/publications/guides-to-importing-and-exporting-goods-between-great-britain-and-the-eu**.

## Gweminarau byw

Rydym yn cynnal cyfres o weminarau byw. Gall unrhyw un fynychu'r rhain i ddysgu rhagor am ystod o bynciau. Maent yn cynnwys y canlynol:

- Beth yw datganiadau mewnforio ar gyfer y tollau?
- Yr hyn y mae angen i chi ei wybod am reolaethau fesul cam
- Cyfrifoldebau masnachwyr wrth ddefnyddio cyfryngwyr
- Allforio: yr hyn y mae angen i chi ei wybod i gadw'ch nwyddau'n symud.

Os hoffech fynychu gweminar, ewch i **www.gov.uk/guidance/help-and-support-for-uk-transition**.

## Diweddariadau wythnosol drwy e-bost i fasnachwyr

Mynnwch atebion i'r cwestiynau mwyaf cyffredin y mae busnesau fel eich un chi wedi'u gofyn i ni yn ystod yr wythnos, ynghyd ag awgrymiadau ar ddod i arfer â'r rheolau newydd.

Cofrestrwch yn **www.gov.uk/guidance/help-and-support-for-uk-transition**.

## Ffoniwch ni

Mae ein Hymgynghorwyr Gwasanaeth i Gwsmeriaid ar gael i ateb eich ymholiadau ar y Llinell Gymorth Tollau Tramor a Masnach Ryngwladol. Byddant yn eich helpu gyda mewnforio, allforio a rhyddhad rhag ffioedd tollau. Mae'r llinell gymorth ar agor rhwng 08:00 a 22:00, o ddydd Llun i ddydd Gwener, a rhwng 08:00 a 16:00 ar y penwythnos.

I siarad ag ymgynghorydd, ffoniwch **0300 322 9434**.

## Gwasanaeth Cymorth i Fasnachwyr

Os yw'ch busnes yn symud nwyddau i mewn i Ogledd Iwerddon, oddi yno neu drwyddo, mae Gwasanaeth Cymorth i Fasnachwyr rhad ac am ddim sy'n rhoi'r diweddaraf i chi ynghylch unrhyw newidiadau sy'n effeithio ar eich busnes.

Ewch ati i ddysgu rhagor a chofrestru drwy fynd i **www.gov.uk/guidance/trader-support-service**.

## Cronfa Gymorth Brexit i Fentrau Bach a Chanolig (MBaCh)

Os ydych yn MBaCh - a elwir hefyd yn SME - a'ch bod yn newydd i brosesau mewnforio ac allforio, gallwch hawlio hyd at £2,000. Gyda'r arian hwn, byddwch yn gallu talu am gymorth ymarferol gan gynnwys hyfforddiant, sy'n cynnwys naill ai cyrsiau ar-lein neu hyfforddwyr a fydd yn dod i'ch busnes. Gall yr hyfforddiant ymwneud â'r tollau, y rheolau o ran tarddiad a TAW.

Ewch ati i ddysgu rhagor yn **www.gov.uk/guidance/grants-to-help-small-and-medium-sized-businesses-new-to-importing-or-exporting**.

## Canllaw cam wrth gam ar gyfer mewnforio nwyddau i'r DU

Os ydych yn mewnforio nwyddau i'r DU, bydd y canllaw cam wrth gam hwn yn rhoi gwybod i chi sut i ddod â nwyddau i mewn i'r DU o unrhyw wlad, gan gynnwys faint o dreth a thollau y bydd angen i chi eu talu ac a oes angen trwydded neu dystysgrif arnoch.

Ewch at i ddysgu rhagor yn **www.gov.uk/import-goods-into-uk**.

## Canllaw cam wrth gam ar gyfer allforio nwyddau o'r DU

Os ydych yn allforio nwyddau o'r DU, bydd y canllaw cam wrth gam hwn yn esbonio sut i symud nwyddau o'r DU i leoedd rhyngwladol, gan gynnwys yr UE.

Ewch at i ddysgu rhagor yn **www.gov.uk/export-goods**.

## Mewnforio nwyddau i'r DU a'u hail-allforio i wlad yn yr UE - siart lif o'r broses

Defnyddiwch ein siart lif newydd i'ch helpu i gael gwybod a fydd y nwyddau rydych am eu hail-allforio i'r UE yn gymwys i gael cyfraddau tollau ffafriol neu i gael Rhyddhad Nwyddau a Ddychwelwyd yn yr UE yn lle hynny.

Ewch i **www.gov.uk/government/publications/hmrc-brexit-transition-communications-resources**.